**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**Cofnodion** o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 27 Mehefin 2018 am 5pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S.Powderhill – yn cadeirio

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol**

| | | |
|---|---|---|
| L.M.Adams | D.Grehan | D.Owen-Jones |
| D.R.Bevan | M.Griffiths | S.Pickering |
| H.Boggis | J.Harries | M.J.Powell |
| J.Bonetto | G.E.Hopkins | S.Rees |
| S.A.Bradwick | P.Howe | S.Rees-Owen |
| J.Brencher | G.W.Hughes | A.Roberts |
| A.Calvert | J.James | J.Rosser |
| G.Caple | P.Jarman | R.W.Smith |
| A.Chapman | G.Jones | G.Stacey |
| A.G.Cox | K.L.Jones | E.Stephens |
| A.Crimmings | L.Jones | G.Thomas |
| J.L.Cullwick | R.Lewis | W.Treeby |
| G.R.Davies | W.Lewis | R.K.Turner |
| J.R.Davies | C.Leyshon | L.Walker |
| A.Davies-Jones | D.Macey | M.Webber |
| L.De Vet | A.Morgan | L.Walker |
| M.Diamond | K.Morgan | J.Williams |
| S. Evans | S.Morgans | T.Williams |
| M.Fidler Jones | M.Norris | C. J. Willis |
| | W.Owen | R.Yeo |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C.Bradshaw – Prif Weithredwr
Mr C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Mr G.Isingrini - Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr R.Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C.Hanagan - Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Ms K.May – Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

**20** **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S.M.Evans, M.Forey, A.S.Fox, H.Fychan, E.George, G.Holmes, L.Hooper, S.M.Powell, M.Tegg, M.Weaver, E.Webster, D.H.Williams a G.D.G.Williams.

**21** **DATGAN BUDDIANT**

**PENDERFYNWYD –** Yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau, i nodi bod y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J.Cullwick, J.Harries, G.W.Hughes, D.Owen-Jones, M.J.Powell, S.Rees-Owen ac E.Stephens wedi datgan buddiant mewn perthynas ag Eitem 8 (b) ar yr Agenda – Hysbysiad o Gynnig gan eu bod nhw'n yn aelodau o Gymdeithas Twnnel y Rhondda.

**22** **CYFLWYNIAD – TRAFNIDIAETH CYMRU**

Derbyniodd yr Aelodau Mr.J.Colins, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth Cymru a gyda chymorth sleidiau PowerPoint rhoddodd ei sylwadau o dan y penawdau canlynol:

- **Beth yw Trafnidiaeth Cymru?**
    - Cwmni di-elw, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yn llwyr
    - Ymgynghorydd arbenigol i Lywodraeth Cymru ac eiriolwr ar gyfer materion sy'n ymwneud â chludiant.
- **Perthynas â Llywodraeth Cymru**
    - Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu polisïau ar gyfer Trafnidiaeth Cymru
    - Mae Trafnidiaeth Cymru yn darparu cyngor ac arbenigedd technegol i helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi
- **Gwasanaethau Trên Cymru a'r Gororau**
    - Trawsnewid ledled Cymru, nid ardal y Metro yn unig
    - Bydd trenau newydd yn disodli pob trên cyfredol yng Nghymru drwy fuddsoddiad gwerth £800M
    - Bydd 95% o deithiau ar drenau newydd sbon
    - Bydd mwy na 50% o'r rheiny yn cael eu hadeiladu yng Nghymru
- **Cronfa Gwella Gorsafoedd – Bydd gwelliannau ar draws holl orsafoedd y rheilffordd drwy fuddsoddiad gwerth bron i £200m, yn ogystal â rhaglen drawsnewid Llwybrau Allweddol y Cymoedd, gan gynnwys:**
    - £40M i uwchraddio a gwella cyfleusterau gorsafoedd gan gynnwys; ystafelloedd aros, cysgodfeydd, toiledau, sgriniau

    - gwybodaeth i gwsmeriaid, sgriniau gwybodaeth digidol a theledu cylch cyfyng wedi'u monitro ym mhob gorsaf
    - £20M i wella darpariaeth arlwyo a manwerthu mewn gorsafoedd
    - £15M i wella hygyrchedd a mynediad heb risiau
    - £15M i greu 1,500 o lefydd parcio newydd
    - £10M i ddarparu mannau cymunedol mewn gorsafoedd
    - £15M ar gyfer peiriannau tocynnau newydd, offer Tocynnau Clyfar a gatiau tro newydd
    - £10M i ddarparu wi-fi yn rhad ac am ddim ym mhob gorsaf
    - Lle i storio beiciau dan do ym mhob gorsaf
    - Cronfa benodol ar gyfer celf a materion yn ymwneud â'r amgylchedd
    - Yn ogystal â chynlluniau blaenllaw
- **Beth yw Metro De Cymru a beth yw Metro Canolog?**
    - Mae **Metro De Cymru** yn cynnwys yr holl wasanaethau lleol o gwmpas De-ddwyrain Cymru:
        - Mae hyn yn cynnwys yr hyn a elwir ar hyn o bryd yn 'Cledrau'r Cymoedd', ynghyd â gwasanaethau rhwng Caerdydd a Glynebwy, Maesteg ac yn ymestyn i Gyffordd Twnnel Hafren a thu hwnt
    - Mae **Metro Canolog** yn cyfeirio at is-set o wasanaethau trên Metro De Cymru sy'n rhedeg o Dreherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, Radyr, Rhymni a Choryton drwy Heol y Frenhines i Fae Caerdydd, Caerdydd Canolog, Penarth, Ynys y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr
    - Mae cynllun y Metro Canolog yn cael gwared ar yr angen i newid trenau i groesi Caerdydd ac yn integreiddio Llinell y Ddinas, Penarth, Ynys y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr gyda rhannau o Gledrau'r Cymoedd sy'n trosglwyddo o Network Rail
- **Newid sylweddol o ran amlder, amserau teithio a chapasiti**
    - Bydd rhagor o drenau bob awr a bydd amseroedd teithio yn lleihau e.e. Treherbert i Heol y Frenhines o 2 yr awr ar hyn o bryd i 4 yr awr yn 2023, gyda'r amser teithio yn lleihau i 46 munud o 57 munud ar hyn o bryd
- **Trosolwg o Ddyluniad y Cysyniad**
    - Trac – 15 o safleoedd lle bydd y trac yn cael ail-ddyblu, ail-greu un gyffordd allweddol, nifer o welliannau i gyflymder llwybrau, darn newydd ar y stryd (tram) ar lwybr Bae Caerdydd i'r Flourish
    - Cynnal a Chadw a Rheoli – depo cynnal a chadw stoc newydd a chanolfan reoli. Gwella gweithrediad dull cymysg "tram-trên"
    - Trydaneiddio – trydaneiddio 'clyfar' i 25kV AC gyda rhannau sydd wedi'u daearu'n barhaol o amgylch strwythurau cyfyngedig,

gan arbed 55 o ymyriadau e.e. ailadeiladu pontydd/dim angen gwifrau yn nhwnnel Caerffili
  - o Seilwaith – 5 gorsaf newydd newydd + 1 orsaf wedi'i hailleoli, 13 platfform newydd, 10 pont droed newydd, 3 pont newydd dros reilffyrdd, 6 chynllun hygyrchedd gorsafoedd a gwaith ym mhob gorsaf i wella cyfleusterau
- **Creu dros 600 o swyddi yn uniongyrchol a 450 o Brentisiaethau**

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau a gafodd eu hateb yn briodol gan Mr.Colins. Diolchodd y Maer i Mr.Colins am ei annerchiad manwl i'r Cyngor ac yna gadawodd Mr.Colins y cyfarfod.

**23 <u>CYHOEDDIADAU</u>**

(1) Talodd y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol R.Lewis ac S. Rees-Owen deyrnged i Frank Vickery a fu farw yn ddiweddar yn dilyn salwch byr.

(2) Rhoddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Chapman ddeiseb i'r Maer ar ran trigolion Treorci yn gofyn am roi mesurau arafu traffig ar waith yn Stryd Fawr, Treorci oherwydd nifer o ddamweiniau traffig ar y ffordd sydd wedi digwydd yn yr ardal.

(3) Dywedodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Brencher, yn dilyn ei chyhoeddiad yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 28 Mawrth, 2018 (Cofnod Rhif 113 (2)) mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth Rhwydweithio Partneriaethau Tramor (PONT), bod taflenni gwybodaeth PONT ar gael i Aelodau yn y cyfarfod.

(4) Dywedodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Williams wrth yr Aelodau fod taflen noddi yn cael ei dosbarthu yn y Siambr er budd 'Taith Steffan Lewis' ai godi arian ar gyfer Canolfan Ganser Felindre.

(5) Rhoddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S.Pickering wybod i'r Aelodau fod taflen noddi yn cael ei dosbarthu yn y Siambr er budd Gŵyl Ynysybwl, a oedd bellach yn ei phumed flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth.

**24 <u>COFNODION</u>**

**PENDERFYNWYD –** cadarnhau cofnodion o'r cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir:

- Cyngor – 25 Ebrill, 2018
- Cyfarfod Blynyddol y Cyngor – 23 Mai, 2018

**25 <u>DATGANIADAU</u>**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan y bydd achlysur yn cael ei drefnu i'w gynnal ym mis Medi, 2018 mewn

perthynas â chynllun Credyd Cynhwysol. Bydd amryw o sefydliadau gan gynnwys grwpiau trydydd Sector yn cael eu gwahodd i'r achlysur yma i rannu'r hyn y byddant yn ei roi ar waith mewn perthynas â chynllun Credyd Cynhwysol a'r effaith enfawr y bydd yn ei gael ar deuluoedd.

Bydd yr holl Gynghorwyr yn cael eu gwahodd i'r achlysur hefyd.

**26 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

**(a) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E.Stephens i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Iaith Gymraeg (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins)**

"A wnewch chi ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau seibiant ar gyfer Cynhalwyr oedolion sy'n agored i niwed?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins**

**"**Mae llawer o waith pwysig yn digwydd yn y maes yma. Mae'r Cyngor yn comisiynu gofal seibiant a gwasanaethau cymorth ar sail anghenion sydd wedi'u hasesu a chaiff pob cais ei ystyried yn unigol.

Ar hyn o bryd, mae gyda ni ddarpariaeth o 22 gwely seibiant mewnol ar gyfer pobl hŷn yn ein cartrefi gofal ar draws RhCT. Mae'r adnodd yma'n golygu bod modd i ni roi cyfle i unigolion drefnu seibiannau mewn amgylchedd diogel sy'n bodloni anghenion gofal a gofynion penodol.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E.Stephens**

"Mae gen i nifer o ofalwyr yn fy ward sy'n gofalu am oedolion sy'n agored i niwed. Mae angen gofal seibiant arnyn nhw. Roedd Treorci yn llawn ac nid oedd yn addas i un o'm hetholwyr fynd y tu allan i Gwm Rhondda am wahanol resymau. Un o'r rhesymau yw'r ffaith ei bod hi ddim yn hawdd cyrraedd rhai llefydd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Erbyn 2037, mae Carers UK yn rhagweld cynnydd enfawr, felly a fydd cynnydd yn y llefydd yma er mwyn bodloni'r galw? A oes modd i'r Pwyllgor perthnasol ymchwilio i hyn?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins**

"Yn gyntaf oll, o bryd i'w gilydd, yn enwedig adeg gwyliau'r haf a gwyliau'r banc, mae mwy o alw ar ein gwasanaethau. Mae'r Cyngor, wrth gwrs, yn cydnabod bod angen capasiti uwch arnom yn y system ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ac fel rhan o'r broses o newid, byddwn yn buddsoddi yng ngwasanaethau i bobl hŷn a'u teuluoedd".

**(b) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hughes i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

"Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i wella'r cyfleoedd Teithio Llesol ar draws y Fwrdeistref Sirol?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar. Roedd yr ymgynghoriad yn edrych ar le y byddai modd gwella'r rhwydwaith mewn gwahanol ardaloedd. Cafwyd llawer o adborth gan drigolion fel rhan o'r broses ymgynghori. Roedd rhaid i'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru anfon eu hymatebion yn ôl ond nid oedd ymatebion rhai Awdurdodau wedi'u cymeradwyo ac fe gawsant eu dychwelyd. Roedd ein hymateb ni wedi'i gymeradwyo ac erbyn hyn mae modd i ni wneud cais am gyllid ar gyfer yr ardaloedd hynny. Mae cyllid ychwanegol wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â £10M arall eleni, arian pellach y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ar ôl hynny, gan greu cyfanswm o £60M".

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hughes**

"A oes ystyriaeth wedi'i rhoi i'r posibilrwydd o agor Twnnel y Rhondda?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Mae Llywodraeth Cymru yn effro i’r mater. Yn hwyrach yn y cyfarfod byddwn ni'n trafod y Rhybudd o Gynnig. Mae'n ymwneud â chymudo a phobl sydd eisiau seiclo, yn ogystal â chyfleoedd hamdden a thwristiaeth a theithio llesol a byddwn ni'n gwneud cais am gyllid".

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Jones i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan)**

"Beth yw protocol y Cyngor ar gyfer hysbysu Aelodau lleol o achlysuron, gweithgareddau a buddsoddiadau sydd wedi cael eu trefnu gan y cyngor yn eu Wardiau?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Mae tair rhan i'ch cwestiwn. Digwyddiadau a Gweithgareddau – mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. O ran achlysuron fel Diwrnod y Lluoedd Arfog, caiff negeseuon e-bost eu hanfon ar ran y Maer.

O ran buddsoddiad, mae'n dibynnu ar ba fath o fuddsoddiad. Mae yna gynlluniau di-ri, er enghraifft goleuadau stryd, sy'n dod o gyllideb enfawr y Rhaglen Gyfalaf. Caiff y rhain eu cyhoeddi fel bod yr Aelodau'n effro i'r hyn sydd yn y Rhaglen Gyfalaf".

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L.Jones**

"Mae gwaith pwysig yn cael ei gynnal ar y ffyrdd yn Ystrad, ac fel Aelodau lleol nid oeddem ni wedi cael gwybod am y gwaith nes iddo gael ei gyhoeddi yn y wasg, gyda'r gwaith yn dechrau'r diwrnod canlynol. Cafodd ffyrdd eu cau a chafodd strydoedd ochr eu rhwystro, gan arwain at broblemau parcio. Mae'r gwaith pwysig o osod pont newydd yn mynd rhagddo yn ein Ward. Cafodd

ymgynghoriad cyhoeddus am y gwaith ei gyhoeddi yr wythnos ddiwethaf ac roedden ni ond wedi cael gwybod amdano dau ddiwrnod ynghynt. Ar y nos Wener es i o gwmpas tai pawb er mwyn rhoi gwybod i'r trigolion y byddai'n tarfu'n fawr arnyn nhw. Pam nad oedden ni wedi cael gwybod?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Fe af i'r afael â'r ail fater yn gyntaf. Ni chafodd yr Aelodau lleol wybod am ei fod yn fater byr-rybudd. Mewn perthynas â'r gwaith ar y bont, cynhaliwyd arddangosfa, nid ymgynghoriad. Oherwydd y problemau yr oedd pobl yn eu cael, gofynnais i'r arddangosfa gael ei chyhoeddi ar unwaith, a'r nos Fercher oedd hynny. Y diwrnod canlynol anfonwyd e-bost at yr Aelodau lleol, ac fe ges i fy nghopïo mewn ar y neges.

O ran Ystrad, mae gwaith ail-wynebu pwysig yn mynd rhagddo ac ni fydd y contractwyr dan sylw yn gweithio i ni eto. Roedd y gwaith i fod wedi'i gwblhau o fewn 10 i 14 diwrnod ac mae wedi cymryd mis. Roedd cydweithio â nhw yn anodd iawn. Cafodd datganiad i'r wasg ei baratoi deg diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau a rhoddwyd hysbysiadau am y gwaith ar oleuadau'r stryd saith diwrnod cyn i'r gwaith ddechrau. Dydyn ni ddim yn rhoi gwybod i Aelodau am faterion sy'n ymwneud ag ail-wynebu ffyrdd.

O safbwynt buddsoddiad, mae cyllideb Priffyrdd anferth ac mae 15 o brosiectau mawr eleni, er enghraifft, mae gyda ni gyllideb ddraenio gwerth £3.5M ac mae'r staff yn gwneud gwaith da dan bwysau mawr. Mae modd i'r Aelodau edrych ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol".

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. R. Bevan)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai wneud datganiad ar Nodyn Cyngor Technegol a Chydastudiaethau Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai (TAN1)?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan**

"Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad mewn perthynas â diwygiadau i Nodyn Cyngor Technegol 1 – Cydastudiaethau Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai (2015). Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad drwy benderfyniad dirprwyedig a anfonwyd ar 14 Mehefin, 2018 a'i gyhoeddi ar yr un diwrnod. Y dyddiad cau oedd 20 Mehefin 2018".

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.James**

"Os yw Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen gyda'r cais, a fyddwch yn trin ceisiadau cynllunio sydd y tu allan i'r CDLl yn wahanol i geisiadau sydd yn rhan o'r CDLl?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan**

"Caiff pob cais ei drin yn yr un modd, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r CDLl. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn caniatáu i Gynghorau benderfynu ar geisiadau ac mae'n gallu dangos pa mor gynaliadwy ydyn nhw. Ni yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sydd â Fforwm Datblygu a chafodd y mater hwnnw ei godi yn y Fforwm. Mae rhaid iddyn nhw ddangos y bydd y cynigion y byddant yn eu cyflwyno yn y dyfodol yn gynaliadwy. Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod ceisiadau drwy'r broses ddemocrataidd".

**(e) Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Yn dilyn y cyhoeddiad y bydd y depo newydd ar gyfer Metro De Cymru yn cael ei ddatblygu yn Ffynnon Taf, a oes modd i'r Arweinydd amlinellu'r camau nesaf ar gyfer cyflwyno'r cynllun?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno i'r Cyngor gan Trafnidiaeth Cymru sy'n ceisio caniatâd cynllunio i sefydlu depo cerbydau newydd a gweithdy cynnal a chadw ar safle Garth Works yn Ffynnon Taf. Mae'r cais hefyd yn cynnwys cynigion i gynyddu nifer y llefydd parcio a theithio, ynghyd â gwella ac addasu seilwaith y priffyrdd a'r rheilffordd yng ngorsaf Ffynnon Taf.

Bydd y cais yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynllunio yn fuan er mwyn i Aelodau ei ystyried a phenderfynu arno.

Mae prif elfennau'r cynllun yn cynnwys:

- dymchwel adeiladau presennol ac ailddatblygu rhan ddwyreiniol y safle i fod yn Depo Ffynnon Taf ar gyfer Metro De Cymru, sy'n cynnwys cyfleusterau sefydlogi a chynnal a chadw ar gyfer cerbydau, gweithdy a swyddfeydd cysylltiedig, llefydd parcio ceir ac is-orsaf drydanol
- Ymestyn un platfform a phont droed gorsaf reilffordd newydd yng ngorsaf bresennol Ffynnon Taf ac aildrefnu ardaloedd mynediad a pharcio'r orsaf
- Adeiladu cysylltiadau rheilffordd newydd i gysylltu Depo Ffynnon Taf â llwybr rheilffordd Caerdydd i Ferthyr

- Adeiladu rhannau wedi'u codi o'r ffordd fynediad i'r bont dros y cysylltiadau rheilffordd newydd i'r depo a chynnal mynediad i'r ffordd rhwng y safle a Heol Caerdydd".

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Bonetto**

"Mae pobl yn dod ataf ac yn gofyn beth fydd manteision y datblygiadau newydd ar ddau ben Ffynnon Taf a'r depo rheilffordd newydd i 'r gymuned?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Un o'r manteision mwyaf fydd nifer y swyddi a fydd yn cael eu creu gan bydd nifer y cerbydau'n cynyddu. Mae cyfle hyfforddi sylweddol yma gan ein bod ni'n cynnig yr unig gyfleuster hyfforddi gwaith ar y rheilffyrdd yng Nghymru yn y coleg lleol. Yn ogystal â swyddi newydd a fydd yn deillio o'r tendr newydd bydd hefyd nifer o brentisiaethau bob blwyddyn.

Mae'n bwysig ein bod ni'n gweld cymaint o bobl o RCT yn elwa o'r cynlluniau yma ag sy'n bosib".

**<u>ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR – Y CABINET A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS</u>**

**27 <u>RHAGLEN WAITH Y CYNGOR</u>**

Gofynnodd y Cyfarwyddwr – Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus i'r Aelodau gymeradwyo'r Rhaglen Waith ddrafft ar y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cyngor eu hystyried dros Flwyddyn Gyngor 2018-19 a oedd ynghlwm i'w adroddiad yn Atodiad 1.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD –** cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2018-19 a chyflwyno diweddariadau pellach i gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol, fel y bo'n briodol.

**28 <u>RHYBUDD O GYNNIG</u>**

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: A.Calvert, L.M.Adams, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.Bradwick, J.Brencher, G.Caple, A.Crimmings, A.Davies-Jones, L.De.Vet, S.Evans, M.Fidler Jones, M.Forey, A.Fox, E.George, M.Griffiths, J.Harries, G.Holmes, G.Hopkins, G.W.Hughes, G.Jones, R.Lewis, W.Lewis, C.Leyshon, A.Morgan, S.Morgans, M.A.Norris, D. Owen-Jones, S.Pickering, S.Powderhill, S.M.Powell, S.Rees, A.Roberts, J.Rosser, R.W.Smith, G.Stacey, M.Tegg, G.Thomas, W.Treeby, R.K.Turner, M.Webber, D.H.Williams, C.J.Willis ac R.Yeo:

"Mae'r Cyngor yma yn cydnabod y peryglon difrifol sy'n cael eu peri gan Sepsis, sy'n hawlio bywydau 44,000 o bobl yn y DU bob blwyddyn.

Sepsis, sy'n cael ei adnabod fel 'y lladdwr tawel', yw prif achos marwolaethau y mae modd eu hosgoi yn y DU. Mae'n digwydd pan fydd y corff yn gor-ymateb i haint drwy ymosod ar ei organau ei hunan.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y camau sydd wedi cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru gan wneud Cymru'r wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno system o uwchgyfeirio cynnar ar gyfer cleifion sy'n dirywio. Mae hefyd yn cydnabod y gwaith sydd wedi ei wneud gan y rhaglen 1,000 o Fywydau sy'n codi ymwybyddiaeth o Sepsis o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).

Mae hefyd yn cydnabod yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, yn enwedig yng ngoleuni symptomau tebyg i ffliw sy'n ymddangos yn aml.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

Cefnogi'r alwad i Lywodraeth Cymru ymgymryd ag Ymgyrch Ymwybyddiaeth Gyhoeddus am Sepsis i wella'r deilliannau ar gyfer goroeswyr a'r rhai sy'n cael eu heffeithio.

Cymryd camau i hyrwyddo addysg ac ymwybyddiaeth o symptomau Sepsis ar draws y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys rhwydwaith staff y Cyngor".

Cafwyd trafodaeth, pan roddwyd teyrnged i rieni Chloe Christopher a fu farw mor ifanc oherwydd Sepsis.

**PENDERFYNWYD –** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**29 <u>RHYBUDD O GYNNIG</u>**

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.W.Hughes, S.Bradwick, L.M.Adams, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, J.Brencher, A.Calvert, G.Caple, A.Crimmings, A.Davies-Jones, L.De Vet, J.Harries, G.Holmes, G.Hopkins, G.Jones, R.Lewis, W.Lewis, C.Leyshon, A.Morgan, S.Morgans, M.A.Norris, D.Owen-Jones, S.Pickering, S.Powderhill, S.M.Powell, S.Rees, A.Roberts, J.Rosser, R.W.Smith, G.Stacey, M.Tegg, G.Thomas, W.Treeby, R.K.Turner, M.Webber, D.H.Williams, C.J.Willis ac R.Yeo:

"Mae'r Cyngor yma yn cefnogi agor Twnnel Rhondda rhwng Blaen-cwm a Blaengwyfi a Thwnnel Abernant sy'n cysylltu Aberdâr â Merthyr Tudful. Mae'r Cyngor yn cymeradwyo ymdrechion sylweddol Cymdeithas Twnnel y Rhondda a hefyd y rheiny sy'n ymwneud â'r ymgyrch i ailagor Twnnel Abernant.

Mae'r Aelodau hefyd yn nodi llwyddiant y cynllun 'Two Tunnels Greenway' yng Nghaerfaddon, sy'n denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn ac sydd wedi cynnal rasys hanner marathon blynyddol 'Two Tunnels'.

Mae'n bosibl byddai ailagor y ddau dwnnel yn gweithredu fel sbardun mawr ar gyfer gwella cyfleoedd Teithio Llesol, hamdden a thwristiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol ac felly mae'n cyd-fynd ag ymrwymiad y Cyngor yma i greu RhCT iach a llesol.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

- Cefnogi'r ymgyrchoedd i ailagor y ddau dwnnel i gydnabod y potensial enfawr sydd gyda nhw ar gyfer gwella twristiaeth a Theithio Llesol, a hefyd ar gyfer gwella'r economi leol
- Parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol cyfagos perthnasol, sef: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i wireddu uchelgeisiau'r ddau brosiect yma".

**Diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig**

Yn unol â pharagraff 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r Diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.R.Davies, E.Stephens, P.Jarman, A.Chapman, A.G.Cox, J.Cullwick, J.Davies, S.M.Evans, H.Fychan, D.Grehan, L.Jones, D.Macey, K.Morgan, S.Rees Owen, M.O.Weaver, E.Webster a J.Williams:

"Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd rhwydwaith llwybrau beicio cynhwysfawr er mwyn i'r prosiectau hyn lwyddo. Bydd yn sicrhau y bydd rhwydwaith o'r fath yn ei le i gyd-fynd ag agor y twneli ar gyfer beicwyr a cherddwyr, gan wneud y mwyaf o botensial y prosiectau hyn i dwristiaid a thrigolion lleol fel ei gilydd.

I'w fewnosod fel pwynt bwled ar ôl y pwynt bwled cyntaf ond cyn yr ail bwynt bwled dan y geiriau "Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu"

Yn dilyn trafodaeth hir ar y mater hwn ac yn dilyn pleidlais mewn perthynas â Diwygio'r Rhybudd o Gynnig a gafodd ei 'cholli'; cafwyd pleidlais ar y Cynnig gwreiddiol, a **PHENDERFYNWYD –** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig fel yr isod:

"Mae'r Cyngor yma yn cefnogi agor Twnnel Rhondda rhwng Blaen-cwm a Blaengwyfi a Thwnnel Abernant sy'n cysylltu Aberdâr â Merthyr Tudful. Mae'r Cyngor yn cymeradwyo ymdrechion sylweddol Cymdeithas Twnnel y Rhondda a hefyd y rheiny sy'n ymwneud â'r ymgyrch i ailagor Twnnel Abernant.

Mae'r Aelodau hefyd yn nodi llwyddiant y cynllun 'Two Tunnels Greenway' yng Nghaerfaddon, sy'n denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn ac sydd wedi cynnal rasys hanner marathon blynyddol 'Two Tunnels'.

Mae'n bosibl byddai ailagor y ddau dwnnel yn gweithredu fel sbardun mawr ar gyfer gwella cyfleoedd Teithio Llesol, hamdden a thwristiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol ac felly mae'n cyd-fynd ag ymrwymiad y Cyngor yma i greu RhCT iach a llesol.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn PENDERFYNU:

- Cefnogi'r ymgyrchoedd i ailagor y ddau dwnnel i gydnabod y potensial enfawr sydd gyda nhw ar gyfer gwella twristiaeth a Theithio Llesol, a hefyd ar gyfer gwella'r economi leol
- Yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol cyfagos perthnasol, sef: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i wireddu uchelgeisiau'r ddau brosiect yma".

**MATER BRYS**

Gyda chaniatâd y Maer, ystyriwyd bod yr eitem ganlynol yn fater brys.

**30 ADOLYGU TREFNIADAU ETHOLIADOL GAN GOMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

Yn eu hadroddiad ar y cyd, roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr – y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus yn gofyn am sylwadau a chymeradwyaeth yr Aelodau ar fethodoleg arfaethedig er mwyn sicrhau bod safbwyntiau Aelodau'r Cyngor yma a rhanddeiliaid eraill ynghylch cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol diwygiedig arfaethedig i'r Awdurdod yma'n cael eu cofnodi'n gynhwysfawr a'u cyfathrebu i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("Y Comisiwn") o fewn yr amserlen berthnasol ac yn unol â dymuniadau'r Cyngor.

Cyfeiriwyd yn yr adroddiad at Gofnod Rhif 139 o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2018 lle penderfynwyd cyfarwyddo'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ("ERO") i lunio adroddiad ynghylch sut y gellid adlinio wardiau'r Fwrdeistref Sirol fel bod cydbwysedd tecach rhwng Cynghorwyr a'u hetholwyr/preswylwyr drwy Weithgor o'r Pwyllgor Craffu perthnasol. Byddai hyn, yn ei dro, yn sail i sylwadau'r Cyngor yma i'r Comisiwn ar unrhyw drefniadau newydd sy'n dod i'r amlwg.

Ar 19 Mehefin 2018 cwrddodd y Comisiwn ag Uwch Swyddogion ac Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i nodi eu hadolygiad wedi'i amserlennu o drefniadau etholiadol ar gyfer yr Awdurdod yma yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") sy'n cynnwys dyletswyddau penodedig ar y Comisiwn sy'n ceisio sicrhau Llywodraeth Leol effeithiol a chyfleus. Mae Adran 21 yn gosod dyletswydd ar

y Comisiwn i adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd.

Ymhellach, nodwyd er y bydd y Comisiwn yn mynd i'r afael â'r Cyngor yn ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 25 Gorffennaf 2018, maent wedi cytuno y byddai'n briodol, o gofio'r gofynion amserlennu fel y nodwyd yn yr adroddiad, i gyfeirio'r mater at yr Aelodau yn y cyfarfod yma o'r Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael er mwyn hwyluso'r broses ymgynghori.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD –**

1. Bod y ddeialog a'r ymgynghoriad priodol ynghylch trefniadau etholiadol yn unol â mecanweithiau a'r amserlen a nodir yn yr adroddiad yma

2 Yn unol â Chofnod Rhif 139 o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2018 bod y sylwadau ar adolygiad o drefniadau etholiadol yn cynnwys Gweithgor sy'n cynnwys holl Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyda gwahoddiad yn cael ei estyn i bob Aelod

**S.POWDERHILL**

**MAER**

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.50pm.**